Estyn

estyn.llyw.cymru

estyn.gov.wales

# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd – Tymor y Gwanwyn 2021

Mawrth 2021



# Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd – Tymor y Gwanwyn 2020

## Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r canfyddiadau o alwadau ffôn ymgysylltu a wnaed i 520 o ysgolion cynradd rhwng dechrau mis Tachwedd 2020 a diwedd mis Chwefror 2021. Mae’r adroddiad wedi’i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr ac athrawon. Y prif ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles, addysgu (yn cynnwys ffocws ar y Cyfnod Sylfaen), y cwricwlwm, dysgu proffesiynol ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae cyfrannau’n perthyn i’r sampl o ysgolion y gwnaethom gysylltu â nhw yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Llywiwyd yr adroddiad hwn gan dystiolaeth o’r ffynonellau canlynol:

- Cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid ac / neu uwch arweinwyr sy’n gyfrifol am feysydd penodol
- Cyfarfodydd o bell gydag athrawon a fynychodd ein fforymau athrawon
- Deg o ymweliadau anffurfiol ag ysgolion

**Mae’r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

## Contents


**Prif ganfyddiadau ..... 1**
- Lles ..... 1
- Addysgu ..... 1
- Cwricwlwm ..... 2
- Dysgu proffesiynol ..... 2
- Anghenion dysgu ychwanegol ..... 2

**Lles ..... 3**
- Lles disgyblion ..... 3
- Lles staff ..... 5
- Lles penaethiaid ..... 6

**Addysgu ..... 6**

**Cwricwlwm ..... 9**

**Dysgu proffesiynol** .......................................................................................... 11
**Anghenion dysgu ychwanegol** ............................................................................ 12
**Atodiad**................................................................................................................. 14

## Prif ganfyddiadau

**Lles**

1 Yn ystod ail hanner tymor yr hydref 2020, parhaodd bron pob ysgol i roi blaenoriaeth uchel i gefnogi lles eu disgyblion.

2 Canfu bron pob ysgol fod y cyfnod clo cychwynnol wedi cael effaith andwyol ar les disgyblion i ryw raddau. Dywedodd llawer ohonynt nad oedd lefelau canolbwyntio disgyblion mor gryf ag oeddent cyn y pandemig.

3 Dywedodd mwyafrif y penaethiaid yn nhymor yr hydref eu bod yn rhagweld y byddai mwy o ysgolion yn cau dros y misoedd nesaf, naill ai fel dosbarth, carfan neu ysgol gyfan, o bosibl. O fis Ionawr, teimlai staff eu bod wedi eu paratoi'n well i gefnogi lles disgyblion o bell.

4 Dywed penaethiaid y bu angen cymorth emosiynol ar nifer gynyddol o ddisgyblion ers y cyfnod clo cyntaf.

5 Mae bron pob un o'r penaethiaid o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i gefnogi lles staff.

6 Dywed staff fod ymrwymiad tîm cryf ac ymdeimlad o gymuned yn datblygu yn eu hysgolion, sy'n cynnwys rhieni a disgyblion.

7 Mae lles penaethiaid yn destun pryder. Mae llawer ohonynt yn teimlo nad ydynt wedi cael egwyl sylweddol ers y cyfnod clo cyntaf. Maent yn aml yn blaenoriaethu lles staff a disgyblion ar draul eu lles eu hunain.

**Addysgu**

8 Yn ystod ail hanner tymor yr hydref, dywedodd y rhan fwyaf o benaethiaid fod medrau disgyblion wedi gwella'n raddol wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

9 Dywed penaethiaid fod staff, yn gyffredinol, wedi parhau i weithredu arfer y cyfnod sylfaen tra'n sicrhau bod amgylcheddau dysgu yn ddiogel ar gyfer disgyblion.

10 Dywedodd llawer o benaethiaid fod athrawon yn cynllunio mwy o brofiadau dysgu i'r holl ddisgyblion yn yr awyr agored yn rheolaidd, fel datrys problemau a gweithgareddau i gefnogi eu hiechyd a'u ffitrwydd.

11 Dywedodd penaethiaid wrthym ni, o fis Ionawr 2021, eu bod wedi eu paratoi'n well ar gyfer cyfnod estynedig o ddysgu o bell.

12 Darparodd llawer o ysgolion ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion a oedd yn adlewyrchu dull y cyfnod sylfaen o ddysgu trwy brofiad y gallent eu cwblhau gartref.

13 Er bod lefelau ymgysylltu ar gyfer dysgu o bell wedi gwella, dywedodd llawer o benaethiaid wrthym ni fod disgyblion iau yn llai tebygol o hyd i gymryd rhan yn gyson na'r rhai yng nghyfnod allweddol 2.

14 Darparodd bron pob ysgol weithgareddau llythrennedd a rhifedd cyson, ynghyd â chyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn cyd-destun ehangach. Dywedodd llawer o benaethiaid fod disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig y rhai hŷn, yn fwy tebygol o ymgysylltu'n rheolaidd â dysgu o bell nag yn y cyfnod clo cyntaf.

15 Esboniodd penaethiaid fod defnyddio sesiynau byw yn arbennig o werthfawr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i alluogi disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref i ymarfer yr iaith yn rheolaidd.

16 Dywedodd llawer o benaethiaid wrthym ni fod staff yn gwerthuso eu darpariaeth dysgu o bell ac yn addasu eu harfer wrth i'r tymor fynd rhagddo, ar sail adborth gan ddisgyblion a rhieni.

17 Croesawodd benaethiaid y cyllid 'recriwtio, adfer, codi safonau' ychwanegol, ac roeddent yn teimlo'n hyderus y byddai'n eu helpu i ddarparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ailymgysylltu â dysgu a gwneud cynnydd.

**Cwricwlwm**

18 Dywedodd llawer o benaethiaid, wrth i dymor yr hydref fynd rhagddo, fod mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson tuag at fynd i'r afael â bylchau yn eu dysgu. Bu modd i'r rhan fwyaf o ysgolion ddychwelyd i gyflwyno cwricwlwm ehangach a mwy cytbwys erbyn ail hanner y tymor.

19 Mae bron pob pennaeth yn croesawu prif egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn teimlo eu bod ar y trywydd iawn ar gyfer ei roi ar waith yn 2022. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn teimlo bod y pandemig wedi rhwystro eu paratoadau, ac maent yn pryderu am eu gallu i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn llawn yn 2022.

**Dysgu proffesiynol**

20 Dywed llawer o benaethiaid fod datblygu medrau hanfodol staff a dyfnhau eu dealltwriaeth o ddulliau dysgu o bell wedi bod yn rhan annatod o ddysgu proffesiynol staff.

21 Siaradodd y rhan fwyaf o benaethiaid yn gadarnhaol am ddefnyddio sesiynau wedi eu recordio ar blatfformau dysgu proffesiynol, gan eu bod yn sicrhau bod deunyddiau hyfforddi ar gael i staff ar adeg sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw.

**Anghenion dysgu ychwanegol**

22 Yn ystod tymor yr hydref, darparodd bron pob ysgol raglenni ymyrraeth ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol â llythrennedd, rhifedd, a chymorth cymdeithasol ac emosiynol.

23 Dywedodd penaethiaid fod staff wedi parhau i weithio gyda disgyblion oedd angen cymorth ychwanegol yn ystod yr ail gyfnod clo, naill ai drwy ddysgu o bell neu yn yr hyb.

## Lles

### Lles disgyblion

Yn ystod ail hanner tymor yr hydref 2020, parhaodd bron pob ysgol i roi blaenoriaeth uchel i gefnogi lles eu disgyblion. Cynhaliodd llawer o benaethiaid ac athrawon asesiadau lles o'u disgyblion. Defnyddiont y wybodaeth hon i gefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Canfu bron pob ysgol fod y cyfnod clo cychwynnol hwn wedi cael effaith andwyol ar les disgyblion i ryw raddau. Dywedodd llawer ohonynt nad oedd lefelau canolbwyntio disgyblion mor gryf ag oeddent cyn y pandemig. Nodont fod angen i staff atgyfnerthu medrau cymdeithasol disgyblion, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen, er enghraifft o ran rhannu a chymryd eu tro. Roedd lleiafrif o ysgolion wedi wynebu heriau â disgyblion o bob oedran yn ei chael yn anodd canolbwyntio, talu sylw am gyfnodau estynedig a dyfalbarhau â'u tasgau. Datblygodd ychydig o ysgolion a brofodd ddiffyg ymgysylltu gan eu disgyblion mwyaf bregus strategaethau i gefnogi rhieni â dysgu o bell.

**Cameo – cefnogi rhieni i gefnogi eu plant**

Yn Ysgol Gynradd Llantrisant yn Rhondda Cynon Taf, nododd y pennaeth fod cynnydd a dysgu disgyblion wedi amrywio ers dechrau'r pandemig, yn enwedig y rhai mwy bregus. Cynhaliodd athrawon drafodaethau ar-lein gyda rhieni yn ystod tymor yr hydref. Cymerodd athrawon amser i esbonio i rieni sut yn union roedd ymgysylltu cyfyngedig â thasgau yn ystod y cyfnod clo cyntaf wedi effeithio ar ddysgu eu plentyn. Fe wnaethant esbonio'r bylchau penodol mewn gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau a oedd wedi dod i'r amlwg ar gyfer disgyblion unigol. Helpodd y dull hwn i wella ymgysylltiad disgyblion a rhieni yn ystod yr ail gyfnod clo.

Dywedodd mwyafrif y penaethiaid yn nhymor yr hydref eu bod yn rhagweld y byddai mwy o ysgolion yn cau dros y misoedd nesaf, naill ai fel dosbarth, carfan neu ysgol gyfan, o bosibl. O fis Ionawr, teimlai staff eu bod wedi eu paratoi'n well i gefnogi lles disgyblion o bell. Cynhaliodd ysgolion sesiynau ailgydio rheolaidd gyda disgyblion naill ai drwy sgyrsiau dros y ffôn, neu'n gynyddol trwy gyfathrebu ar fideo byw. Cynhaliodd llawer o ysgolion wasanaethau dosbarth neu grŵp blwyddyn lle byddai athrawon yn dathlu ymdrechion disgyblion ac yn eu hannog i ymgysylltu'n barhaus. Parhaodd llawer o ddisgyblion a elwodd ar raglenni ymyrraeth lles yn yr ysgol i dderbyn y cymorth hwn trwy sesiynau fideo gynadledda. Mewn ychydig o achosion, roedd yn well gan deuluoedd gael pecynnau gwaith ar ffurf copïau papur. Hefyd, darparodd ysgolion ddeunyddiau eraill, fel llyfrau darllen, offer ysgrifennu, creonau a thoes chwarae, am nad oedd gan ddisgyblion y rhain gartref.

**Cameo – delio â gorbryderon disgyblion**

Cynlluniodd Ysgol Llangwyryfon yng Ngheredigion gyfres o weithgareddau i hyrwyddo lles disgyblion, er enghraifft cyfle i ddisgyblion greu murluniau ystafell ddosbarth yn adlewyrchu eu teimladau. Rhoddodd staff 'ddyddiadur teimladau' i bob disgybl ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6. Rhannwyd pob tudalen yn adrannau i amlygu'r pethau hynny roedd disgyblion yn poeni amdanynt, pethau a oedd yn eu gwneud yn hapus, a phethau a oedd yn eu cyffroi. Bu aelod o staff yn monitro'r cynnwys ac yn ymyrryd yn bwrpasol, yn ôl yr angen.

Canfu ychydig o benaethiaid ysgolion sydd â niferoedd sylweddol o'u disgyblion yn siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) fod cefnogi lles y disgyblion hyn yn creu heriau penodol iddynt. Dywedon nhw fod teuluoedd yn y grŵp hwn yn gallu teimlo'n hynod ynysig pan mae eu dealltwriaeth o'r Saesneg yn gyfyngedig. Yn yr amgylchiadau hyn, yn gyffredinol, ceisiodd ysgolion yn galed i gynnig cymorth parhaus i deuluoedd, gan weithio'n agos â gwasanaeth cymorth SIY yr awdurdod lleol. Yn aml, defnyddiodd staff adnoddau fel apiau perthnasol a gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn, a helpodd i gefnogi ymgysylltiad disgyblion.

Ar ddechrau tymor y gwanwyn, caewyd adeiladau ysgolion i'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ganlyniad i gyfyngiadau clo. Cynhaliodd ysgolion ddarpariaeth hyb ar gyfer plant gweithwyr allweddol ac ar gyfer disgyblion bregus. Ar y cyfan, roedd gan ysgolion feini prawf clir ar gyfer gwahodd disgyblion ychwanegol yr oeddent wedi nodi bod angen cymorth wyneb yn wyneb arnynt i fynychu.

Dywed penaethiaid fod cyfarfodydd amlasiantaethol wedi parhau dros blatfformau ar-lein. Dywedant fod cyfarfodydd fel grwpiau craidd a chynadleddau achos wedi elwa ar fod ar-lein, ar y cyfan. Mae hyn yn galluogi mwy o weithwyr proffesiynol i fynychu'n rheolaidd, ac mae'n amgylchedd llai brawychus ar gyfer pobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol. Dywed ychydig o ysgolion fod cynnydd mewn atgyfeiriadau ynghylch trais domestig. Mae ysgolion sy'n gweithio gyda'r heddlu mewn ardaloedd Operation Encompass[1] yn cael rhybudd y bore canlynol ar ôl i'r heddlu fynychu digwyddiad. Dywed arweinwyr fod y wybodaeth hon yn werthfawr ar gyfer yr ysgol o ran cynnig cymorth ar gyfer y disgyblion dan sylw.

Dywed penaethiaid y bu angen cymorth emosiynol ar nifer gynyddol o ddisgyblion ers y cyfnod clo cyntaf. Dywed y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn parhau i ddarparu cymorth emosiynol i ddisgyblion trwy ddarpariaeth fewnol ar gyfer lles. Mae cwnselwyr yn parhau i ddarparu cymorth gwerthfawr o bell ar gyfer dysgwyr bregus y mae angen mwy o gymorth lles arbenigol arnynt.

Mae penaethiaid yn sôn yn aml am y cymorth gwerthfawr a gânt gan Swyddogion Lles Addysg eu hawdurdod lleol. Mae'r swyddogion hyn yn cefnogi penaethiaid trwy ymweld â theuluoedd sy'n anodd eu cyrraedd pan fydd pryderon. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach erbyn hyn gan nad yw gweithwyr cymdeithasol yn ymweld â

[1] Partneriaeth rhannu gwybodaeth yn gynnar rhwng yr heddlu a'r byd addysg yw 'Operation Encompass'. Mae heddluoedd sy'n rhan o Operation Encompass yn anfon gwybodaeth i ysgolion cyn dechrau'r diwrnod ysgol canlynol ar ôl i swyddogion fynychu digwyddiad yn ymwneud â cham-drin domestig sy'n cynnwys un o'u disgyblion. Mae hyn yn galluogi ysgolion i gynnig cymorth brys i blant a phobl ifanc fregus, cyn i'r diwrnod ysgol ddechrau.

chartrefi, a gall y teuluoedd hyn gael eu hynysu'n gynyddol oddi wrth wasanaethau cymorth.

O'r galwadau ymgysylltu prin a wnaed i benaethiaid ers ailagor ysgolion ar gyfer holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen, dywed y rhan fwyaf ohonynt fod y lefelau presenoldeb yn dda. Dywedant fod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi ymgynefino'n dda a'u bod wrth eu boddau yn gweld eu ffrindiau. Mae'r penaethiaid yn teimlo ei bod yn bwysig ailsefydlu arferion cyfarwydd mor gyflym ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau trwy weithgareddau ffurfiol ac anffurfiol yn y dosbarth ac yn yr awyr agored.

**Lles staff**

Mae bron pob pennaeth o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth i gefnogi lles staff. Yn ystod ail hanner tymor yr hydref, dywedodd penaethiaid fod llawer o aelodau staff wedi profi ymdeimlad o arwahanrwydd a lefelau uwch o orbryder. Datblygodd ysgolion lawer o fecanweithiau i leddfu'r teimladau hyn. Yn gyffredinol, dywed athrawon fod arweinwyr a chydweithwyr yn cynorthwyo'i gilydd yn dda trwy gyfarfod ar-lein, cynnal sesiynau ailgydio rheolaidd a thrwy grwpiau cyfryngau cymdeithasol mwy anffurfiol. Dywedodd ychydig o aelodau staff fod awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol yn cynnig sesiynau lles defnyddiol ar gyfer athrawon ac arweinwyr.

O bryd i'w gilydd, gweithredodd ysgolion gyda lefelau staffio llai wrth i aelodau staff warchod eu hunain neu hunanynysu. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos yn aml fod staff mewn ysgolion bach iawn yn teimlo dan fwy o bwysau gan fod llai o bobl i rannu'r baich gwaith. Mae hyn yn arbennig o wir am benaethiaid sydd â chyfrifoldebau addysgu hefyd. Er gwaethaf hyn, dywed staff fod ymrwymiad tîm cryf ac ymdeimlad o gymuned yn datblygu yn eu hysgolion sydd hefyd yn cynnwys rhieni a disgyblion.

Yn ystod yr ail gyfnod clo, soniodd llawer o benaethiaid am ddisgwyliadau cynyddol ar staff gan rieni o ran dysgu o bell, ac yn arbennig nifer y sesiynau byw. Roedd hyn yn heriol i staff oedd â chyfrifoldebau gofalu gartref hefyd. Darparodd ychydig o benaethiaid 'oriau cyswllt' ar gyfer rhieni pan allai fod yn rhesymol iddynt ddisgwyl ymateb gan athro. Neilltuodd benaethiaid eraill amseroedd penodol yn ystod yr wythnos lle nad oedd disgwyl i staff ymateb i unrhyw ohebiaeth allanol. Roedd hyn yn galluogi staff i baratoi ar gyfer yr wythnos o'u blaenau heb fod unrhyw beth yn tarfu arnynt. Yn ystod yr adegau hyn, anogwyd disgyblion a'u teuluoedd i weithio i ffwrdd o'u sgriniau ar weithgareddau ymarferol neu gorfforol.

**Cameo – rheoli lles staff trwy sesiynau heb fod ar y we**

Yn Ysgol Archesgob Rowan Williams yn Sir Fynwy, ystyriodd arweinwyr adborth staff ynglŷn â bod ar alwad yn barhaus, ac effaith hyn ar eu lles eu hunain. Yn ychwanegol, roedd pryderon gan rieni ynglŷn â faint o amser roedd eu plant yn ei dreulio ar sgrin. Penderfynodd arweinwyr ddefnyddio dydd Mercher ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu staff. Er bod tasgau'n cael eu gosod o hyd, nid oedd unrhyw wersi'n cael eu ffrydio'n fyw na dysgu yn dibynnu ar TGCh ar y diwrnod hwnnw, ac nid oedd athrawon yn monitro negeseuon. Roedd aelod dynodedig o staff 'ar ddyletswydd' bob amser er mwyn i bob dosbarth allu codi materion ynghylch lles neu ddiogelu a oedd yn digwydd ar ddydd Mercher.

Darparodd hyn amser gwarchodedig i staff ystyried dysgu eu disgyblion ar gyfer yr wythnos ddilynol, a dadansoddi patrymau ymgysylltu yn ystod yr wythnos flaenorol. Cafwyd adborth cadarnhaol ar unwaith gan ddisgyblion a theuluoedd, a bu gwelliant mawr yn lles staff.

**Lles penaethiaid**

Mae lles penaethiaid yn destun pryder. Mae llawer ohonynt yn teimlo nad ydynt wedi cael egwyl sylweddol ers dechrau'r cyfnod clo cyntaf. Yn aml, maent yn blaenoriaethu lles staff a disgyblion ar draul eu lles eu hunain. Mae llawer o benaethiaid wedi bod yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel goruchwylio amser cinio a dosbarthu pecynnau gwaith. Yn yr ysgolion lleiaf, maent wedi bod yn cyflwyno dysgu o bell yn ogystal â chyflawni eu rolau arwain a rheoli.

Yn ystod tymor yr hydref, teimlai llawer o benaethiaid ysgol yn rhwystredig nad oeddent yn cael rhybudd ymlaen llaw ynghylch negeseuon cenedlaethol am addysg. Roeddent yn teimlo nad oedd hyn yn gadael llawer o amser iddynt ystyried y wybodaeth cyn i staff a rhieni ofyn iddynt am y sgil-effeithiau i'w hysgol. Dywedodd ychydig ohonynt eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymryd rhan mewn gweminar gyda'r Gweinidog Addysg a swyddogion o Iechyd Cyhoeddus Cymru. Galluogodd hyn iddynt ddysgu am y wyddoniaeth y tu ôl i benderfyniadau Llywodraeth Cymru, a myfyrio ar y camau nesaf ar gyfer eu hysgol.

Dywed ychydig o benaethiaid fod cynnal y gweithdrefnau profi, olrhain a diogelu yn llafurus. Er enghraifft, dywedodd ychydig o benaethiaid fod angen iddynt ddelio ag achosion positif yng nghymuned eu hysgol, a helpu ag olrhain cysylltiadau posibl hyd yn oed yn ystod cyfnod gwyliau'r Nadolig.

Daeth mwyafrif o benaethiaid o hyd i rwydweithiau cymorth gwerthfawr trwy eu clwstwr lleol, a thrwy greu grwpiau cyfryngau cymdeithasol gyda'u cyfoedion. Fe wnaethant rannu meddyliau a gofidiau, ynghyd â syniadau ac atebion. Yn aml, dywedodd penaethiaid fod cadeiryddion llywodraethwyr a swyddogion consortia rhanbarthol yn gefnogol ac yn cynnig 'clust i wrando'. Roedd ychydig o benaethiaid yn gwerthfawrogi'r ffaith fod uwch staff awdurdodau lleol ar gael i ateb eu hymholiadau ar fyr rybudd, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd a sesiynau diweddaru rheolaidd gyda phenaethiaid.

## Addysgu

Yn ystod ail hanner tymor yr hydref, dywedodd y rhan fwyaf o benaethiaid fod medrau disgyblion yn gwella'n raddol wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Parhaodd llawer o athrawon â'r addasiadau roeddent wedi eu gwneud i addysgu a'r cwricwlwm am weddill y tymor, i helpu mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn nysgu disgyblion.

Dywed penaethiaid fod staff, ar y cyfan, yn parhau i roi arferion y cyfnod sylfaen ar waith tra'n sicrhau bod amgylcheddau dysgu yn ddiogel ar gyfer disgyblion. Roedd addasiadau cyffredin yn cynnwys glanhau offer yn rheolaidd, a lleihau adnoddau

chwarae meddal a chwarae rôl.  Dywedodd y rhan fwyaf o benaethiaid eu bod yn parhau i ddilyn egwyddorion y cyfnod sylfaen, fel sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd trwy weithgareddau ymarferol.

Dywedodd llawer o benaethiaid fod athrawon yn cynllunio mwy o brofiadau dysgu i'r holl ddisgyblion yn yr awyr agored yn rheolaidd, fel datrys problemau a gweithgareddau i gefnogi eu hiechyd a'u ffitrwydd.  Dywedont fod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les, a medrau cymdeithasol a chorfforol disgyblion, yn ogystal â datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn modd difyr.  Hefyd, dywedodd penaethiaid fod staff wedi bod yn greadigol wrth addasu gweithgareddau dysgu. Dywedodd ychydig o benaethiaid ei bod yn heriol i ysgolion gynnal rhai dulliau addysgu, fel gwaith grŵp a gwaith pâr, o ganlyniad i gyfyngiadau  Covid-19.

Dywedodd penaethiaid wrthym eu bod wedi eu paratoi'n well ar gyfer cyfnod estynedig o ddysgu o bell, o fis Ionawr 2021.  Yn y rhan fwyaf o ysgolion, soniodd penaethiaid am lefelau uwch o ymgysylltiad disgyblion nag yn y cyfnod clo blaenorol. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i ddisgwyliadau uwch gan staff a defnydd cynyddol o sesiynau byw neu glipiau fideo wedi eu recordio ymlaen llaw.  Addasodd y rhan fwyaf o staff faint o addysgu byw roeddent yn ei ddarparu yn unol ag oedran y disgyblion, gan ddarparu llai o addysgu byw ar gyfer disgyblion iau.

Darparodd llawer o ysgolion ystod o weithgareddau i ddisgyblion y gallent eu cwblhau gartref a oedd yn adlewyrchu dull y cyfnod sylfaen o ddysgu trwy brofiad. Cyflwynodd athrawon fwyafrif y gweithgareddau trwy rannu clipiau fideo byr wedi'u recordio ymlaen llaw a sbardunodd ddisgyblion i ymgymryd â thasgau ymarferol. Roedd y recordiad ymlaen llaw hwn yn galluogi rhieni a disgyblion i gael mynediad at sesiynau ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw, gan ailedrych ar wersi pe bai angen. Dywedodd y rhan fwyaf o athrawon eu bod yn rhoi cyfleoedd mynych i ddisgyblion ddal i fyny â'u dosbarth, er mwyn iddynt allu 'gweld' eu ffrindiau a lleihau'r teimlad o arwahanrwydd.  Wrth i hyder disgyblion yn defnyddio technoleg dysgu o bell wella, gwnaeth athrawon ddefnydd cynyddol o sesiynau byw byr i dargedu medrau penodol fel ffoneg, darllen neu rifedd.  Hefyd, defnyddiodd athrawon y dechnoleg hon i annog disgyblion i lanlwytho tystiolaeth o dasgau roeddent wedi eu cwblhau, a rhoi adborth a oedd yn briodol i oedran y disgybl.  Er enghraifft, defnyddiodd athrawon glip sain byr i roi sylwadau ar waith disgyblion.  Er bod lefelau ymgysylltu ar gyfer dysgu o bell wedi gwella, dywedodd llawer o benaethiaid fod disgyblion iau yn llai tebygol o hyd i gymryd rhan yn gyson na'r rhai yng nghyfnod allweddol 2.  Nododd llawer o arweinwyr fod dysgu o bell yn aml yn fwy heriol ar gyfer disgyblion yn y cyfnod sylfaen, ac roeddent yn ofni y byddent yn llithro'n ôl ymhellach yn eu dysgu.

**Cameo – hyrwyddo egwyddorion y cyfnod sylfaen trwy ddysgu o bell**

Yn Ysgol Gynradd Crossgates ym Mhowys, postiodd staff y cyfnod sylfaen weithgareddau llythrennedd a rhifedd dyddiol ar gyfer disgyblion.  Darparodd athrawon fideos i fodelu'r medrau a'r tasgau â ffocws.  Hefyd, darparont her greadigol ddyddiol iddynt, er enghraifft 'ewch i adeiladu cuddfan yn eich ystafell fyw neu yn eich gardd'.  Roedd 'tasgau her' llythrennedd, rhifedd a gweithgareddau ymarferol i gyd yn annog dull 'yn rhydd o gyfrifiadur' o ddysgu ar ôl i'r disgyblion wylio'r fideos cychwynnol.  Dywedodd y pennaeth fod y dull hwn wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan rieni, ac arweiniodd at lefelau uchel o ymgysylltu â theuluoedd.

Dywedodd bron pob pennaeth fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gallu cael mynediad i dasgau trwy blatfformau ar-lein. Yn aml, roedd y platfformau hyn yn galluogi athrawon a disgyblion i rannu dogfennau a chyfathrebu â'i gilydd trwy gyfleusterau fideo neu sgwrsio. Darparodd bron pob ysgol weithgareddau llythrennedd a rhifedd mynych, ynghyd â chyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn cyd-destun ehangach. Dywedodd llawer o benaethiaid fod disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig disgyblion hŷn, yn fwy tebygol o ymgysylltu'n rheolaidd â dysgu o bell nag yn y cyfnod clo cyntaf. Mae dysgwyr yn priodoli hyn i allu disgyblion i weithio'n fwy annibynnol, a'u defnydd cynyddol o blatfformau dysgu ar-lein yn yr ystafell ddosbarth yn ystod tymor yr hydref. Defnyddiodd llawer o athrawon ffrydio byw neu glipiau fideo a rennir i esbonio tasgau unigol. Cynhaliodd lleiafrif o ysgolion drafodaethau â grwpiau bach hefyd, a roddodd gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn trafodaethau, gweithgareddau darllen, neu sesiynau mathemateg byr. Esboniodd penaethiaid fod defnyddio sesiynau byw yn arbennig o werthfawr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i alluogi disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref i ymarfer yr iaith yn rheolaidd. Er enghraifft, recordiodd staff eu hunain yn darllen storïau y gallai disgyblion wrando arnynt gyda'u teuluoedd, neu ddangos gweithgareddau ymarferol tra'n modelu geirfa a phatrymau brawddeg Cymraeg.

Dywedodd penaethiaid fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflwyno eu gwaith yn ddigidol trwy ddefnyddio platfformau ar-lein. Rhoddodd staff gyfleoedd i'r rhai nad oeddent yn gallu cyflwyno eu gwaith o bell ddychwelyd pecynnau gwaith wedi eu cwblhau i'r ysgol. Dywedodd penaethiaid fod athrawon yn rhoi adborth cefnogol a chalonogol i ddisgyblion ar eu gwaith, a bod disgyblion yn ymateb trwy wella eu gwaith neu ysgrifennu sylwadau ychwanegol. Dywedodd llawer o arweinwyr fod staff yn gwerthuso eu darpariaeth dysgu o bell ac yn addasu eu harferion wrth i'r tymor fynd rhagddo, ar sail adborth gan ddisgyblion a rhieni.

Mae llawer o ysgolion wedi parhau i ddatblygu dulliau difyr o gyfoethogi profiadau dysgu ar-lein disgyblion. Er enghraifft, gweithiont mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol fel curaduron amgueddfa a grwpiau drama, a deilwrodd eu cynnig i gefnogi dysgu o bell.

**Cameo – gwerthuso dysgu o bell**

Yn Ysgol Eifion Wyn yng Ngwynedd, roedd arweinwyr a staff yn gwerthuso eu harferion addysgu o bell yn rheolaidd ond yn anffurfiol. Roeddent yn trafod eu dulliau yn rheolaidd ac yn nodi'r ymagweddau mwyaf effeithiol. Hefyd, cysylltodd arweinwyr â rhieni i geisio eu barn am brofiadau dysgu eu plant, ac ystyriwyd eu hatebion. O ganlyniad, defnyddiodd staff sesiynau dysgu byw a oedd yn fyr ac ysgogol er mwyn cynnal diddordeb disgyblion a'u hannog i ymgysylltu â'u dysgu yn gyson. Cysylltodd yr ysgol â theuluoedd y disgyblion hynny oedd angen arweiniad ychwanegol i gwblhau tasgau, a chynnig cyngor a chymorth iddynt.

Croesawodd penaethiaid y cyllid recriwtio, adfer, codi safonau ychwanegol, ac roeddent yn teimlo'n hyderus y byddai'n eu helpu i ddarparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ymgysylltu o'r newydd â dysgu, a gwneud cynnydd. Yn ystod ail hanner tymor yr hydref, dywedodd bron pob un o'r penaethiaid eu bod yn defnyddio'r cyllid i gynyddu lefelau staffio. Dywedont fod y cynnydd mewn capasiti staffio yn eu

galluogi i dargedu unigolion neu grwpiau i gefnogi eu lles, llythrennedd a rhifedd. Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr wrthym ni eu bod wedi sefydlu prosesau i fonitro cynnydd disgyblion.

**Cameo – dull tîm o gyflymu dysgu**

Yn Ysgol Gynradd St. Helen yn Abertawe, datblygodd arweinwyr ddull cydlynus a chydlynol o ddarparu ymyrraeth a darpariaeth dal i fyny. Creodd y pennaeth dîm a oedd yn cynnwys swyddog dysgu teuluol yr ysgol, y dirprwy bennaeth a chynorthwywyr addysgu. Gyda'i gilydd, fe wnaethant nodi sawl maes allweddol o ddysgu disgyblion a oedd wedi cael eu heffeithio'n anffurfiol, a rhoesant gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Yn y cyfnod sylfaen, fe wnaethant dargedu medrau darllen, rhifedd, a medrau cymdeithasol disgyblion, fel glynu at arferion. Yng nghyfnod allweddol 2, fe wnaethant nodi darllen a deall a sillafu, iechyd a ffitrwydd, ac agweddau at ddysgu yn agweddau sydd angen cymorth ar eu cyfer. Cyfunodd y pennaeth gyllid o sawl ffynhonnell, yn cynnwys y cyllid recriwtio, adfer, codi safonau, y grant datblygu disgyblion a'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, er mwyn cynyddu lefelau staffio. Fe wnaethant gyflogi un athro ychwanegol a thri chynorthwyydd addysgu naill ai i ddarparu cymorth eu hunain, neu i ryddhau'r athro dosbarth i ddarparu cymorth i ddisgyblion targedig trwy gydol tymor yr hydref. Dywedodd y pennaeth fod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da erbyn diwedd y tymor.

Defnyddiodd ychydig o benaethiaid y cyllid i gynyddu'r gymhareb staff i ddisgyblion yn nosbarthiadau'r cyfnod sylfaen. Galluogodd hyn y staff i fodelu iaith ac ymddygiadau priodol, a rhyngweithio â disgyblion yn fwy rheolaidd yn ystod eu cyfnodau chwarae i ddatblygu eu medrau cyfathrebu.

Dywedodd ychydig iawn o benaethiaid eu bod wedi defnyddio rhan o'r cyllid recriwtio, adfer, codi safonau i brynu adnoddau ymyrraeth penodol neu hyfforddiant cysylltiedig ar gyfer staff. Er enghraifft, fe wnaethant ddarparu mynediad ar gyfer disgyblion at raglen ddarllen, a oedd yn eu galluogi i gael ystod ehangach o ddeunydd darllen gartref. Dywedodd llawer o benaethiaid eu bod wedi parhau i ddarparu rhaglenni ymyrraeth ar gyfer disgyblion yn ystod yr ail gyfnod clo, gan ddefnyddio platfformau'r ysgol ar gyfer dysgu o bell. Dywedodd penaethiaid fod y disgyblion hynny a oedd yn mynychu'r hybiau yn parhau i gael cymorth addysgol wyneb yn wyneb gwerthfawr.

## Cwricwlwm

Dywedodd llawer o benaethiaid fod mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth lenwi'r bylchau yn eu dysgu, wrth i dymor yr hydref fynd rhagddo. Dywedont fod disgyblion wedi elwa ar ganolbwyntio ar les, llythrennedd, rhifedd a TGCh ar ddechrau'r tymor. O ganlyniad, fe wnaeth y rhan fwyaf o ysgolion allu dychwelyd i gyflwyno cwricwlwm ehangach a mwy cytbwys erbyn ail hanner y tymor. Dywedodd llawer o benaethiaid eu bod wedi ymgysylltu o'r newydd â dulliau thematig ehangach dros y cyfnod hwn, gan roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm.

Nododd penaethiaid y bu'n heriol darparu gweithgareddau ysgogol i ddisgyblion gan ddarparwyr allanol o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19. Yn aml, roedd staff yn goresgyn hyn trwy chwilio am ffyrdd arloesol i ddisgyblion ddyfnhau eu gwybodaeth a chymhwyso medrau trwy gyd-destunau ystyrlon. Er enghraifft, creodd un ysgol gysylltiadau â busnesau lleol a alluogodd disgyblion i ddatblygu eu medrau siarad a chyflwyno trwy gyfleu eu syniadau o bell i ddatblygwr tai lleol ar gyfer dyluniadau tai newydd. Dywedodd llawer o ysgolion eu bod yn gwneud defnydd da o'u hamgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored i ddarparu profiadau difyr i ddisgyblion yr oeddent fel arfer yn eu cael ar dripiau ysgol.

Erbyn dechrau tymor y gwanwyn, roedd llawer o benaethiaid wedi gweithio'n agos gyda'u staff i ddatblygu cwricwlwm addas i ddysgu o bell a oedd yn hygyrch i ddisgyblion. Er enghraifft, yn aml, creodd ysgolion destunau cyffredin ysgol gyfan, gan alluogi brodyr a chwiorydd yn yr un aelwyd i gefnogi dysgu ei gilydd. Dywedodd bron pob ysgol eu bod yn darparu gweithgareddau llythrennedd a rhifedd dyddiol a thasgau cwricwlwm ehangach i ddisgyblion trwy gydol yr wythnos i ehangu eu profiadau dysgu.

**Cameo – cwricwlwm eang trwy ddysgu o bell**

Ar ddechrau'r wythnos yn Ysgol Gynradd Nant Celyn yn Nhorfaen, cafodd teuluoedd disgyblion y cyfnod sylfaen 'Fat Dysgu' wythnosol a oedd yn amlinellu 'tasgau'r wythnos'. Cynhaliwyd y rhain o ddydd Llun i ddydd Iau, ac roedd dydd Gwener yn ddiwrnod ar gyfer rhannu, myfyrio a dal i fyny â gwaith anorffenedig. Roedd athrawon yn pennu gweithgareddau rhifedd a llythrennedd dyddiol ar gyfer disgyblion, gyda'r disgyblion yn eu cwblhau a'u dychwelyd ar yr un diwrnod. Yn ychwanegol, roedd athrawon yn darparu un gweithgaredd Cymraeg ac un gweithgaredd 'testun' i ddisgyblion eu cyflwyno erbyn diwedd yr wythnos. Heriodd athrawon y disgyblion i ddatblygu 'medr bywyd' hefyd, fel dysgu gwneud eu gwely, helpu golchi'r llestri neu fwydo anifail anwes. I gefnogi teuluoedd ymhellach, creodd yr ysgol set o weithgareddau 'gellid eu gwneud', a oedd yn cwmpasu profiadau dysgu unigol a theuluol fel ei gilydd.

Mae bron pob pennaeth yn croesawu prif egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, ac mae mwyafrif ohonynt yn teimlo eu bod ar y trywydd iawn i'w weithredu yn 2022. Mae mwyafrif ohonynt yn credu bod cadw'r llinell amser bresennol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn gam pwysig i gynnal momentwm. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn teimlo bod y pandemig wedi rhwystro eu paratoadau, ac maent yn pryderu am eu gallu i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn llawn ym mis Medi 2022. Er enghraifft, dywedodd ychydig ohonynt fod ysgolion yn colli'r 'cam arbrofol' hanfodol. Lleiafrif o benaethiaid yn unig a fynegodd ddealltwriaeth glir o broses cynllunio'r cwricwlwm neu a oedd yn gallu rhoi eu hysgol yng nghyd-destun 'Y Daith i 2022'. Yn yr achosion hyn, roedd gweledigaeth yr ysgol yn glir ac yn cynnwys cynlluniau ar gyfer esblygu addysgu yn unol â'r deuddeg egwyddor addysgegol. Mae llawer o ysgolion wedi ailedrych ar agweddau pwysig ar addysgu, fel ffyrdd effeithiol o ymateb i waith disgyblion a gwella ffyrdd o holi. Yn aml, mae penaethiaid yn disgrifio hyn fel dull clwstwr, sy'n cysylltu athrawon ar draws ysgolion i archwilio a datblygu dealltwriaeth gyffredin o addysgeg effeithiol. Dywedodd mwyafrif o benaethiaid eu bod wedi canolbwyntio ar adolygu eu dulliau cynllunio i ystyried y

pedwar diben a'r meysydd dysgu a phrofiad. Yn yr achosion hyn, mae'n aml yn anodd cael amcan o'r graddau y mae teithiau diwygio cwricwlwm yr ysgolion wedi effeithio ar arferion ystafell ddosbarth, o ystyried y diffyg tystiolaeth uniongyrchol sydd ar gael ar hyn o bryd. Yn aml, dywedodd arweinwyr fod pwyslais cynyddol ar gynllunio profiadau dysgu dilys ar gyfer disgyblion sy'n gwneud defnydd effeithiol o gymuned leol yr ysgol. Mae llawer o benaethiaid wedi annog staff i arloesi a threialu dulliau newydd.

**Cameo – defnyddio cyd-destunau go iawn i yrru'r cwricwlwm**

Yn Ysgol Gynradd Ringland yng Nghasnewydd, mae staff wedi darparu cyfleoedd dysgu i ddisgyblion ehangu eu dealltwriaeth o'u hardal leol. Gweithiodd pob dosbarth ar thema gyffredin yn seiliedig ar Long Casnewydd, sydd wedi'i lleoli ger yr ysgol. Dyfnhaodd hyn ddealltwriaeth y disgyblion o hanes y llong ac effaith llygredd ar y dyfrffyrdd. Mewn gweithgareddau amgylcheddol dilynol, daeth disgyblion yn 'gyfranddalwyr' mewn melin wynt fel rhan o'u dysgu am ynni cynaliadwy.

## Dysgu proffesiynol

Dywed llawer o benaethiaid fod datblygu medrau digidol staff a dyfnhau eu dealltwriaeth o ddulliau dysgu o bell wedi bod yn rhan annatod o ddysgu proffesiynol staff. Mewn ychydig o achosion, anogodd y penaethiaid yr athrawon i ymchwilio i, a datblygu, dulliau addysgegol ar gyfer dysgu o bell a rhannu arfer dda. Cynorthwyodd hyn iddynt fireinio eu darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion yn y ffordd orau.

**Cameo – triawdau addysgu yn cefnogi dysgu o bell**

Yn Ysgol Gynradd Waunfawr yng Nghaerffili, datblygodd athrawon eu dulliau dysgu o bell trwy ddefnyddio triawdau addysgu sefydledig i sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol. Arsylwodd athrawon sesiynau dysgu o bell ei gilydd. Er enghraifft, arsylwodd staff yn y cyfnod sylfaen weithgareddau cydweithwyr i edrych ar sut oedd orau i ddefnyddio adnoddau digidol i gefnogi dysgu mewn amgylchedd ar-lein. Yng nghyfnod allweddol 2, arbrofodd athrawon â defnyddio'r nodwedd 'ystafelloedd ymneilltuo' ar eu platfform fideo gynadledda. Gweithiodd staff gyda'i gilydd i ddatblygu eu harfer, ac anogodd arweinwyr nhw i arloesi a chefnogi ei gilydd.

Daeth penaethiaid o hyd i gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth mewn meysydd fel diogelu, anhwylder y sbectrwm awtistig a chyfathrebu trwy iaith arwyddion. Siaradodd y rhan fwyaf o benaethiaid yn gadarnhaol am ddefnyddio sesiynau wedi eu recordio ar blatfformau dysgu proffesiynol wrth iddynt sicrhau mynediad at ddeunyddiau hyfforddi i staff ar adeg sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw. Er enghraifft, mewn un ysgol, defnyddiodd staff fodiwlau ar-lein wedi eu recordio ynghylch anhwylderau ymlyniad, ac wedyn buont

yn cydweithio mewn cyfarfod staff rhithwir i ystyried sut gallent roi hyn ar waith yn eu hysgol.

Mae arweinwyr sydd â gwahanol gyfrifoldebau mewn ysgolion wedi cymryd rhan mewn gweminarau i ymestyn eu dealltwriaeth o ddatblygiadau mewn addysg, fel y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Cwricwlwm i Gymru.  Yn ychwanegol, trefnodd arweinwyr i athrawon arbenigol ddarparu sesiynau ar-lein i gynorthwyo staff i ddarparu rhaglenni llythrennedd a rhifedd a dulliau effeithiol o addysgu Cymraeg i ddisgyblion.

Mewn lleiafrif o ysgolion, galluogodd penaethiaid y staff i gymryd rhan mewn cyrsiau achrededig, fel cymorth cyntaf a hylendid bwyd.  Anogodd penaethiaid y staff i gadw cofnod o'u gweithgareddau dysgu proffesiynol i gynorthwyo â thrafodaethau am eu hanghenion datblygiad proffesiynol yn y dyfodol.

Mae llawer o benaethiaid wedi cydweithio â swyddogion consortia rhanbarthol a thiwtoriaid prifysgol i gefnogi athrawon newydd gymhwyso a myfyrwyr addysg gychwynnol i athrawon.  Mae arweinwyr wedi darparu cyfleoedd i fentoriaid yn yr ysgol fynychu hyfforddiant i wella eu medrau mewn arwain a chefnogi athrawon newydd gymhwyso a myfyrwyr addysg gychwynnol i athrawon.  Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon a myfyrwyr wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau dysgu proffesiynol yr ysgol hefyd.

Dywed y rhan fwyaf o benaethiaid fod staff yn awyddus i ymgymryd â dysgu proffesiynol i'w helpu i ddiwallu'r newid yn anghenion eu disgyblion.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae penaethiaid yn ystyriol o'r pwysau amser ychwanegol y gall gweithgareddau dysgu proffesiynol ei roi ar athrawon pan maent eisoes yn darparu sesiynau ar-lein, yn ymateb i waith disgyblion ac yn cefnogi dysgwyr sy'n mynychu'r ddarpariaeth hyb.

## Anghenion dysgu ychwanegol

Yn ystod tymor yr hydref, darparodd bron pob ysgol raglenni ymyrraeth i'r disgyblion hynny yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt â llythrennedd, rhifedd, a chymorth cymdeithasol ac emosiynol.  Dywedodd penaethiaid fod disgyblion, yn gyffredinol, wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cymorth a ddarparwyd, a gwnaethant gynnydd buddiol yn ystod y tymor.  Yn gyffredinol, parhaodd ysgolion i gynnal cyfarfodydd ac ymgynghoriadau â gweithwyr proffesiynol, fel seicolegwyr addysg a therapyddion lleferydd ac iaith, i gefnogi disgyblion naill ai o bell neu wyneb yn wyneb.  Dywedodd staff fod cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn ei gwneud yn anos cynorthwyo disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.  Er enghraifft, dywedodd llawer o arweinwyr y bu'n anodd i staff ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion mewn gwahanol ddosbarthiadau tra'n cynnal 'swigod'.

Dywedodd penaethiaid fod staff wedi parhau i weithio gyda disgyblion yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod yr ail gyfnod clo, naill ai drwy ddysgu o bell neu yn yr hyb.  Yn gyffredinol, dywedont fod athrawon yn aml yn ei gweld yn fwy heriol diwallu anghenion unigol disgyblion trwy blatfformau rhithwir.  Dywedon nhw fod cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol yn aml yn cynorthwyo staff i ddarparu

gweithgareddau dysgu â'r her priodol ar gyfer disgyblion. Mewn ychydig o ysgolion â darpariaeth arbenigol, darparodd staff profiadol gyngor ar ddefnyddio dulliau dysgu o bell yn effeithiol i gydweithwyr, disgyblion a'u teuluoedd.

Codwyd pryderon gan ychydig o benaethiaid ynghylch p'un a fydd eu hysgolion yn barod i roi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ar waith mewn amser. Mae ymateb i heriau'r pandemig wedi golygu nad ydynt wedi gallu rhoi cymaint o sylw i'w cynlluniau ar gyfer y diwygio ag y byddent wedi hoffi. Dywed ychydig o benaethiaid eu bod wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau staff i fodloni gofynion y Ddeddf yn well. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae staff wedi cael cyfleoedd dysgu proffesiynol i gaffael dealltwriaeth ddyfnach o'r newidiadau sydd ar ddod. Mae ychydig ohonynt yn gweithio mewn partneriaeth â'u clystyrau i gyflawni hyn.

## Atodiad

| Consortiwm | Awdurdod lleol | Galwadau Ymgysylltu |
|---|---|---|
| **CCD** | Pen-y-bont ar Ogwr | 20 |
| | Bro Morgannwg | 17 |
| | Rhondda Cynon Taf | 48 |
| | Merthyr Tudful | 7 |
| | Caerdydd | 35 |
| | **Cyfanswm CCD** | **127** |
| **GCA** | Caerffili | 24 |
| | Blaenau Gwent | 5 |
| | Torfaen | 9 |
| | Sir Fynwy | 9 |
| | Casnewydd | 15 |
| | **Cyfanswm GCA** | **62** |
| **ERW** | Powys | 32 |
| | Ceredigion | 13 |
| | Sir Benfro | 28 |
| | Sir Gâr | 43 |
| | Abertawe | 32 |
| | **Cyfanswm ERW** | **148** |
| **GwE** | Ynys Môn | 23 |
| | Gwynedd | 38 |
| | Conwy | 28 |
| | Sir Ddinbych | 22 |
| | Sir y Fflint | 28 |
| | Wrecsam | 23 |
| | **Cyfanswm GwE** | **162** |
| Castell-nedd Port Talbot | | 21 |
| **Yr holl ddarparwyr cynradd** | | **520** |
| | | |
| **Meincnod PYDd (PYDd dros 3 blynedd 2018-2020)** | | |
| Hyd at, ac yn cynnwys, 8% | | 117 |
| Dros 8% a hyd at, ac yn cynnwys, 16% | | 154 |
| Dros 16% a hyd at, ac yn cynnwys, 24% | | 109 |
| Dros 24% a hyd at, ac yn cynnwys, 32% | | 67 |
| Dros 32% | | 68 |
| Ddim ar gael * | | 5 |
| **Cyfanswm** | | **520** |

*** Nid yw’r Meincnod PYDd ar gael ar gyfer meithrinfeydd a gynhelir**